Enw _____

DARLLENWCH
Genesis 13: 1-18

ADNODAU ALLWEDDOL
Diarhebion 3: 5 a 6

Gwers 2 Teithiau Abraham – Dewisiadau

Pe bai ewythr neu fodryb yn rhoi arian i chi i'w wario, a chithau'n mynd i'r siop felysion, fe welech chi bob math o felysion yno. Sut byddech chi'n gwario'ch arian? Fe fyddai'n rhaid i chi wneud dewis! Roedd rhaid i Abram a Lot wneud dewisiadau pwysig - dewis pa ffordd y bydden nhw'n mynd weddill eu bywyd. Wrth i Abram a Lot ddal i deithio yng Nghanaan, fe ddaeth y ddau yn gyfoethog iawn.

C Ysgrifennwch wrth ochr bob llun beth oedd ganddyn nhw.



2

Daeth hi'n amlwg yn fuan y byddai'n anodd iddyn nhw gael digon o borfa a dŵr ar gyfer yr holl anifeiliaid oedd ganddyn nhw, ac fe ddechreuodd gweision Abram a Lot gweryla. Roedd Abram yn drist iawn pan glywodd am y cweryla. Roedd yn gwybod y byddai Duw yn drist hefyd. Byddai'n llawer gwell iddo ef a Lot wahanu.

C Ysgrifennwch y geiriau yn adnod 9 sy'n dweud bod Abram wedi gadael i Lot ddewis lle i fynd.

1

C Ysgrifennwch yr atebion i'r cliwiau isod, yna rhowch gylch am yr atebion yn y Pos Geiriau. Maen nhw wedi'u cuddio i bob cyfeiriad.

W	E	R	DD	H	O	G
I	C	O	Y	A	R	O
O	A	S	W	C	E	M
R	T	O	L	E	T	O
DD	R	D	G	H	A	R
O	T	O	R	E	O	R
N	E	M	A	R	B	A
E	N	D	A	E	R	T
N	I	A	R	Y	W	D

1. Gadawodd y dyn hwn yr Aifft. .... (adn 1)
2. Roedd pobl y ddinas hon yn ddrwg ..... (adn 13)
3. Roedd y ddinas hon yn agos i Sodom. ..... (adn 10)
4. Teithiodd Lot i'r cyfeiriad hwn ..... (adn 11)
5. Aeth y dyn hwn gydag Abram ..... (adn 5)
6. Galwodd Abram ar enw'r ..... (adn 4)
7. Gwelodd Lot y gwastadedd hwn. ..... (adn 10)

7

Dewisodd Lot y lle gorau yn ei farn ef. Ond dewis gwael oedd ei ddewis yn y pen draw.

C **Rhowch gylch am bob gair sy'n disgrifio'r bobl oedd yn byw yn Sodom.**

Drwg **Da** **Pechadurus** **Caredig** **Aflan**

3

Roedd Lot mewn perygl mawr o gael ei arwain i drwbwl gan y bobl hyn. Doedd dim rhaid i Abram boeni am gael ei adael gyda'r tir ail orau. Cyn gynted ag y gadawodd Lot, siaradodd Duw ag Abram eto ac addo rhywbeth llawer gwell iddo.

C **Tanlinellwch y gair cywir yn y frawddeg:**

Dywedodd Duw wrth Abram am edrych i bob cyfeiriad, ac addawodd y byddai

ychydig **dim** **hanner** **y cyfan**

o'r tir y gallai ei weld yn dod yn eiddo i'w deulu.

1

Rhaid i ni hefyd wneud dewisiadau. Mae rhai'n ddewisiadau dibwys, mae eraill yn bwysig. Weithiau maen nhw'n rhai cywir, dro arall yn rhai anghywlr.

C **Rhowch linell drwy'r dewisiadau anghywir isod:**

Bod yn ufudd i'n rhieni. / Gwneud fel y mynnwn ni.
Taro rhywun sy'n gas i ni. / Maddau iddyn nhw.

2

Mae'r dewis mwyaf y gallwn ni ei wneud yn ymwneud â'r Arglwydd Iesu.

C **Rhowch ✓ a ✗ yn y blychau i ddangos pa un yw'r dewis cywir.**



Dweud 'Na wnaf' wrth Iesu a mynnu eich ffordd bechadurus eich hunan. ☐

Dweud 'Gwnaf' wrth Iesu a'i ddewis yn Waredwr, yn Arglwydd ac yn Arweinydd. ☐

2

Mae'n rhaid i bob un wneud y dewis, ac ni ddylen ni fod fel Lot yn gwneud y dewis anghywir. Dewisodd Abram ymddiried yn Nuw a chafodd ei fendithio gan Dduw. Mor bwysig yw gwneud y dewis iawn! Ydych chi wedi gwneud y dewis pwysicaf o bob un ac wedi gofyn i'r Arglwydd Iesu ddod i'ch bywyd chi i fod yn Waredwr, yn Arglwydd ac yn Arweinydd i chi?

C **Ysgrifennwch yr Adnod Allweddol sy'n dweud wrthym pa mor bwysig yw gwneud y dewis cywir.**

2